

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Golygyddion

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Y Beibl a Chyfiawnder

*Ar ddydd Gwener yr
Eisteddfod
Genedlaethol yn y
Fenni eleni y Parchg
Robin Samuel oedd
yn gyfrifol am y
sesiwn ar y Beibl.
Dyma'r ail o ddwy
erthygl sydd yn
crynhoi ei sylwadau.*



Robin Samuel

Os yw cyfiawnder yn ymwneud â pherthynas, felly hefyd anghyfiawnder. Pan fydd perthynas yn anghyfartal, yn torri lawr neu'n chwalo, pan fydd 'pechod' (i ddefnyddio gair y Beibl) yn dangos ei hunan, gallwn fentro bydd anghyfiawnder yn dilyn. Gwelir hynny ar lefel bersonol ac unigol, yn y mathau o berthynas sy'n cysylltu unigolion a'i gilydd ym mywyd bob dydd - priodas yn torri lawr, rhwyg deuluol, cynnen rhwng cymdogion, ffrindiau'n cwmpo mas neu ffræe yn y gweithle. Mae'n gallu digwydd hefyd ar lefel y strwythurau cymdeithasol, perthynas athro a disgybl, rheolwr a gweithiwr, gofalwr a chlaf.

Mae'n wir hefyd ar lefel fyd-eang. Oni ellir priodoli'r newid sy'n digwydd i'r hinsawdd a'i effeithiau, i berthynas anghyfartal pobl â'r greadigaeth a rhwng cyfoethog a'r tlawd? Mae ffordd afradus o fyw y gwledydd cyfoethog yn creu newid yn yr hinsawdd sydd yn effeithio'n andwyol ac yn anghymesur ar y gwledydd tlotaf, a'r bobl dlotaf o fewn y gwledydd hynny. Y bobl sy'n gwneud lleiaf i achosi'r problemau, sy'n cael eu heffeithio waethaf ganddynt, ac wedyn yn derbyn fawr ddim cymorth gan y bobl sy'n wir gyfrifol – dyna chi anghyfiawnder! Bellach ym mhob trafodaeth ar newid hinsawdd mae asiantaethau yn pwysleisio'r angen am gyfiawnder hinsawdd, unioni'r cam.

Anghyfartaledd

Perthynas ddiffygiol sydd hefyd wrth wrandaidd lledaeniad HIV/AIDS. Dynion yn cam-drin gwagedd yw un o'r ffactorau allweddol sy'n lledu'r haint. Gwagedd tlawd yn cael eu gorfodi i fynd yn weithwyr rhyw am nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o ennill bywoliaeth, bwydo eu plant neu hyd yn oed talu eu ffordd drwy'r ysgol. Llywodraethau tlawd ddim yn gallu fforddio darparu addysg ddigonol i ddysgu pobl sut i amddiffyn eu hunain yn erbyn HIV. Ac ar lefel gwladwriaethau a chysylltiadau rhyng-genedlaethol mae effeithiau perthynas

anghyfartal yn ddigon eglur, e.e:

Dyled – Gwlad gyfoethog yn gwrthod rhyddhau gwlad dlawd o'u dyledion, er bod y dyledion yn feichus ac yn llesteirio datblygiad.

Masnach - cytundebau sy'n ffafrio'r cyfoethog a'r pwerus ac yn cosbi'r tlawd, neu reolau sy'n rhwystru gwledydd rhag rhoi blaenoriaeth i fasnachu cyfiawn a theg.

Trethi - perthynas yr unigolion a'r wladwriaeth, pan fo osgoi talu trethi yn golygu bod y wladwriaeth heb incwm angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol sylfaenol. Neu berthynas cwmni rhyngwladol a gwlad, pan fo cwmnïau yn mynnu osgoi talu cyfradd deg o dreth gan amddifadu gwledydd tlawd o arian alla'i helpu codi eu pobl mas o dloidi.

Cyfannu'r Rhwyg

Os ym ni o ddiffri ynglŷn â gweithredu cyfiawnder yn unol â'n galwad, rym ni'n gorfod cyfrannu at y broses o wella a thrwsio perthynas anghywir ac anghyfiawn, ar bob lefel, gan ddefnyddio'r ffyrdd sydd ar gael i ni, fel cymorth, datblygiad, addysgu, ymgyrchu, lobio, dadlau. Ar yr un pryd hefyd, mae gyda ni gyfrifoldeb i gadw llygad ar berthynas sydd ar hyn o bryd yn iach, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn para i weithredu cyfiawnder. Karl Barth ddwedodd, 'Gall y Cristion ond edrych lle mae Duw yn edrych.' Felly mae'n rhaid i ni ofyn i'n hunain, i ba gyfeiriadau rym ni'n gweld Duw yn edrych heddiw? Baswn i am ddweud, yn sicr strwythurau gwleidyddol a chymdeithasol ein dydd. Gallwn ni ddim gwahanu Duw oddi wrth y rhain, ac wrth weithio i sicrhau cyfiawnder heddiw y mae angen i ni weld y strwythurau hyn drwy lygaid Duw.

Proffwydol

Yr her heddiw, fel erioed, yw bod yn broffwydol. A chofiw'n fod hynny'n fwy na jyst gwaeddi'n uchel. Darllenwch chi broffwydi'r HD, fel Amos, ac fe welwch yn glir beth yw ystyr bod yn broffwydol.

Mae'n dechrau gydag adnabod/deall y sefyllfa. Mae'n rhaid i ni wybod y ffeithiau a deall yr amgylchiadau. Mae'n rhaid i ni wrando ar fudiadau fel Cymorth Cristnogol, Tearfund, Achub y Plant a'r cymunedau mae nhw'n gweithio gyda nhw, ac nid jyst derbyn yn ddi-gwestiwn beth mae'r papur newydd neu newyddion teledu neu Twitter a Facebook yn dewis dweud wrthym.

**O dan yr wyneb**

Yna rhaid diffinio'r broblem, rhaid edrych o dan y wyneb a gweld trwy'r sglein ymddangosiadol, a'r ffalsrwydd, a'r atebion ffug a'r hunan-gyfiawnhad. Mae'r eglwys mewn sefyllfa ardderchog i wneud hynny, am fod gennym Air Duw, sydd, medd y Llythyr at yr Hebreaid, fel cylllel finog y llawfeddyg, yn torri'n rhywyd ac yn ddwfn, yn dinoethi'r drwg, yn datgelu'r twyll a'r anghyfiawnder sydd yng ngwead ein cymdeithas a'n byd. Eto, mor amharod rym ni i ddod a sefyllfaedd ein byd o dan oleuni'r Gair.

Ac, wrth gwrs, mae bod yn broffwydol yn golygu cynnig ateb radical. Darllenwch yr adnodau sy'n cloi llyfr Amos, neu'r ail hanner o bennod 65 o broffwydoliaeth Eiseia. A gofynnwch i'ch hunan fydddech chi'n troi at yr eglwys heddiw i glywed atebion o'r fath? – go brin!

Rheidrwydd Cristnogol

Mae peidio mynd i'r afael a pherthynas sy'n anghyfiawn, peidio herio a cheisio newid y strwythurau sy'n cadw pobl mewn tloidi neu dal at ryw gred mai ewyllys Duw yw'r rhanriad rhwng cyfoethog a thlawd, - nid opsiynau Cristnogol yw'r rhain. Yr opsiwn Cristnogol, yn wir y rheidrwydd Cristnogol clir a syml yw - gweld delw Duw ym mherson pob un arall, gweld eraill fel rhai y bu Crist farw drostynt, dangos parch diamed tuag at bawb, arddel hawliau pobl eraill, a gafael yn y cyfrifoldebau mae Duw yn gosod arnom a'u cyflawni hyd eithaf ein gallu, gan ymddiried yn Nuw i ddwyn ei waith i ben.

Robin Samuel

Cynhelir

Cyfarfod Sefydlu

Y Parchedig Carwyn Siddall
yn weinidog ar

Eglwys yr Annibynwyr, Y Bala
ac i groesawu'r Eglwys yn rhan o
Ofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch

Ddydd Sadwrn, Hydref 8fed, 2016
am 2.30 o'r gloch

yng Nghapel yr Annibynwyr, Y Bala.

Croeso cynnes i bawb

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 39 Medi 22, 2016 50c.

Y FFORDD I ADFYWIO FFYDD POBL CYMRU

Cafodd cynllun cyffrous Undeb yr Annibynwyr i adnewyddu bywyd eglwysi a'r dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru ei lansio yn y gogledd nos Iau ddiwethaf yn y Capel Coffa, Cyffordd Llandudno. Bydd lansiad arall yn y de wythnos nesa.

Mae'r *Ffordd* yn gynllun pedair blynedd sy'n annog trafodaeth ffres ac eang ar natur y ffydd Gristnogol. Dyma'r strategaeth gyntaf o'i bath gan enwad Cristnogol yng Nghymru, ac fe gafodd y lansiad sylw eang ar radio a theledu.

Barn y Bobl

Yn ganolog i'r fenter mae cyfres o fideos thematig newydd sy'n cynnwys barn pobl ar y stryd, yn ogystal â chyfweiliadau gan aelodau eglwysig, gweinidogion a diwinyddion. Bydd y rhain ar gael fel DVDs ac ar-lein i'w defnyddio fel sail trafodaethau grŵp.

Mae'r ffilmio o dan ofal y cyflwynydd a'r cynhyrchydd profiadol Rhodri Darcy sydd bellach ar staff yr Undeb. Cafodd technegwyr proffesiynol hefyd eu cyflogi i helpu gyda'r gwaith golygu yn y stiwdio radio a theledu newydd yn nhŷ John Penri.

Cryfhau Ein Ffydd a'n Hyder

"Mewn oes pan fo aelodaeth eglwysig yn gostwng yn gyflym, bwriad y prosiect unigryw hwn yw helpu Cristnogion i gryfhau eu ffydd a rhoi iddynt yr hyder i fynegi'r ffydd yna yn eu cymunedau," meddai Dr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr. "I lawer, mae'n bosib mai hwn fydd y cyfle olaf i atal y dirywiad ac arbed eu capeli rhag cau."

Bydd yr adnoddau ar-lein ar gael i bob



enwad ac ar gyfer unrhyw un sydd am ddydsu mwy am y ffydd Gristnogol a'r hyn mae Cristnogion yn ei gredu heddiw.

**Lansiad De Cymru: Capel Bethania,
Y Tymbl, Llanelli SA14 6ED
Nos Lun, 28 Medi am 7.00.**

Y Ffordd

O Dduw Dad, dy eiddo di - yw y Ffordd;
awn mewn ffydd ac egni
a'n hysbryd yn llawn asbri
ar y daith i'th garu Di.

Beti-wyn James



Denzil James

Trist iawn oedd gennym glywed am farwolaeth y Parchg Denzil James ar yr 8fed o Fedi. Bu ef yn weinidog ffyddlon i'r Arglwydd Iesu yn eglwysi Gibeon a Ffynnon Bedr; Tabernacl, Maenclochog; Gwynfryn, Rhydaman; Rama a Phen-y-graig, Nasareth, Pont-iets; Y Tabernacl a Charmel, Treforys.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda Betsan, ei ferch a'r teulu oll yn eu profedigaeth gan weddio y bydd newyddion da atgyfodiad yr Arglwydd Iesu a'i fuddugoliaeth dros angau yn goleuo eich llwybr.

RHOI ARFAU YN NWWYLO PLANT YSGOL

Cafodd cynllun Llywodraeth Prydain i wario £50 miliwn ar greu mwy o unedau cadéts milwrol mewn ysgolion ei feirniadu'n llym mewn cyfarfod i hybu heddwch yng Nghaerfyrddin. Pasiwyd cynnig mewn cyfarfod a drefnwyd gan Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn galw am wario'r arian ar godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'r angen i hyrwyddo heddwch.



Magu Dinasyddion Heddychlon

"Byddai gwario'r miliynau o bunnau ar hyrwyddo diwylliant heddwch yn helpu magu dinasyddion creadigol a heddychlon ar gyfer y dyfodol," meddai'r Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Cadeirydd Rhwydwaith Heddwch yr Annibynwyr. Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol gan y gynulleidfa o bron i 150 o bobol yng nghapel Heol Awst yng nghyfarfod nos y Cwrdd Chwarter – achlysur oedd yn agored i bawb.



parhad ar dudalen 7

Dafydd a Bathsheba

Yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr fe arweiniwyd yr Astudiaethau Beiblaidd gan y Parchg Kenneth Lintern ac fe gafwyd gwledd wrth iddo agor y gair. Dyma ran olaf o'r astudiaeth ar Ddafydd a Bathsheba.

Yn y paragraff sy'n cloi'r hanes dywedir bod y plentyn yn cael ei daro ac yn clafychu. Mae Dafydd yn ymbil, yn ymrydio, yn wylo ac yn



treulio'r nos ar lawr (o bosibl "ar y ddaear", fel ei filwyr ar faes y gad). Ond mewn wythnos mae'r plentyn yn marw, a gweision y palas yn ofni dweud wrth Ddafydd. Ond mae'n deall o'u sibrdw ac yn gofyn. Ac mae'r ateb yn swta: "Bu farw" neu hyd yn oed "Marw" – "Rwy'n feichiog"; "Ti yw'r dyn"; "Wedi marw". A gwelir mawredd Dafydd: mae'n codi, yn ymolchi, yn eneinio'i hun, yn newid ei ddillad, ac yn mynd i dŷ Dduw i addoli cyn bwyta. "Tra oedd yn fyw... 'Pwy a ŵyr a fydd Yahweh yn trugarhau wrthyf?'" – gair gwahanol yma am "drugarhau", sef "dangos ffafr (anhaeddiannol), bod yn raslon". "Ond erbyn hyn mae wedi marw." "Byddaf fi'n mynd ato ef, ond ni ddaw ef yn ôl ataf fi" (er mai Sheol sydd mewn golwg, rwy'n siŵr fod argyhoeddiad hyd yn oed yn yr Hen Destament fod rhywbeth o bwys yn ein haros y tu draw).

Cariad a Chyfiawnder

Beth a ddywedwn ni am hyn? Troi'r pechod heibio ac eto cosbi! Ai dehongliad yr awdur yn sgîl yr hyn a ddigwyddodd? Ynteu mwy na hynny? "Cosbi" - cosbi pwy? Gellir cam-drin baban, ond ni ellir ei gosbi - mae'n ddiystyr. Cosbi Dafydd a Bathseba yn yr ystyr fod ffrwyth eu godineb wedi darford! Yn lle bod yn symbol gweladwy cynyddol o'u pechod a'r hyn a ddigwyddodd i'w dad!

Credai Origen fod Duw yn "cosbi", os dyna'r gair, er mwyn puro, nid er mwyn talu'n ôl. Mae Dafydd yn cysuro Bathseba (nid fel arall, sylwch); ef a weithredodd yn y lle cyntaf. Beth bynnag, rhaid i ni ddeall bod cysondeb rhwng cariad sanctaidd a chyfiawnder trugarog Duw. Dywedodd Isaac o Syria, un o seintiau'r Eglwys Uniongred, "Y mae Mab Duw ei hun wedi datguddio i ni fod Duw uwchlaw popeth yn dda ac yn garedig". Dywedodd hefyd, "Pe bai Duw yn hollol gyfiawn, byddem i gyd

yn uffern yn barod". Mae hyd yn oed digofaint Duw yn arf ei gariad.

Ffrwythau Diolchgarwch

Cofier I Corinthiaid 3, lle mae Paul yn sôn am yr unig sylfaen, Iesu Grist. Daw'r hyn a adeiladwn ni ar y sylfaen i'r amlwg "ar y Dydd hwnnw". Gall ein gwaith gael ei losgi, "ond fe'n hachubir ni, ond dim ond megis trwy dân". Mae Duw yn troi heibio ein pechodau yng Nghrist. Ond nid yw hynny'n golygu ymddwyn fel y mynnwn heb ganlyniadau. Cyfeiriwyd at anniolchgarwch Dafydd, ac y mae ein gweithredoedd da ni i fod yn ffrwythau diolchgarwch am yr hyn a wnaeth Duw i ni. Dywedir bod Dafydd yn "delynor" a gallwn weddio gyda Phantycelyn: "Rho fy nwydau fel cantorion Oll i chwarae'u bysedd cun Ar y delyn sydd yn seinio Enw Iesu mawr ei hun." Ganwyd plentyn arall, sef Solomon (neu Jedideia: "anwyl yn Yahweh"). Ac yn I Brenhinoedd 1 a 2 daw Bathseba eto i'r golwg, yn sicrhau gyda Sadoc yr offeiriad a Benaia mai Solomon, ac nid ei frawd Adoneia, fydd yn olynydd i'w dad. Gwelsom yn y stori hon fychander a mawredd Dafydd y dyn. Dywedodd rhyw garcharor mai'r hyn a ddysgodd yn y carchar oedd bod gan bob sant ei orffennol a phob pechadur ei ddyfodol.

Nid arbedodd

Wrth ystyried llawer o bethau a wneuthum yn fy mywyd, clywaf y llais yn fy nghlust, "Ti yw'r dyn". Ond clywaf hefyd lais Pontius Pilat: "Ecce homo/Wele'r dyn" - y dyn dibechod a gariodd holl bwysau hunanoldeb, creulondeb a chasineb y ddynoliaeth ar ei ysgwyddau ar Galfaria. "Nid arbedodd" y dyn cyfoethog creulon yn y ddameg. Ond medd Paul (Rhuf. 8.32): "Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun" (ei unig Fab, mab ei fynwes, yr Oen di-fai), ond ei draddodi i farwolaeth drosom ni oll": epheisato (yr un gair ag yn LXX ein stori heddiw). Gair, wrth gwrs, sy'n gallu golygu hefyd: "Ni roddodd yn ddarbodus". Ei "gosbi" i gael ei bwys o gnawd? Ni allaf dderbyn hynny. I'w buro? Dianghenraid! Yn hytrach, yn ei wneud "yn berffaith trwy ddiodeffiadau", yn archoffeiriad yn gallu "cyd-ddioddef â'n gwendidau" (Hebreaid 2.10; 4.15), y Tad yn disgwyl gan y Mab, ac nid yn ofer, yr un cariad aberthol unwaith am byth mewn hanes ag sy'n nodweddu'r Tad ei hun yn rhinwedd ei gariad sanctaidd, crynhoi'r gras a fu bob amser o'n plaid. Mae wedi troi heibio ein pechodau, gan ei roi ei hun drosom ni. Ni ofynnwn am drugaredd yn ofer. Ond mae yn disgwyl ymateb priodol yn ein bywydau.

Kenneth Lintern

Y Swans a'r Evans ifanc

Mae'r annisgwyl i'w ddisgwyl weithiau ar foreau Sul ym Methlehem, Gwaelod-y-garth. Roedd y cyn-weinidog, y Parchedig Ddr. R. Alun Evans, yno i gymryd rhan gyda'i gyd-aelodau o ardal Yr Eglwys Newydd, mewn oedfa wedi'i threfnu gan arweinydd newydd yr eglwys, Delwyn Siôn.

Ond wele! Wedi'r oedfa, roedd gwahoddiad i bawb gael 'paned' yn y festri – a hithau'n wir heb fod yn Sul Cymun! Yno roedd yno glamp o gacen, yn lliwiau'r "Swans", yn nodi fod y bytholwyrdd R. Alun newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 'ddwbl-deugain' ifanc iawn. Roedd gan aelod llawn ieuengaf Bethlehem, Áine Edwards, englyn o waith ei thaid, yr awdur Emyr Edwards, i gyfarch Alun ar yr achlysur:

Un rhan yw ei wasanaeth, y gweddill

Yn waddol gwrogaeth

I'r ffrwd, mae'n bysgotwr ffraeth,

A hylaw'i ddoniau helaeth.

Hufen ychwanegol ar gacen R. Alun (nid fod angen hynny) oedd i'w hoff dîm pêl-droed, Abertawe, fod y rhai cyntaf eleni i ddwgyd pwynt oddi ar Chelsea yr un pnaun!

Ifan Roberts

AT Y GOLYGYDD

Annwyl Olygydd,

Tua'r adeg hon o'r flwyddyn bydd llawer o fyfyrwyr ac athrawon ifanc yn dod i Gaerdydd, a charew eu sicrhau fod eglwys fyw, ifanc ei hysbryd, ac aelwyd Gristnogol gynnes yn eu disgwyl yn Eglwys Minny Street.

Ar hyd y blynyddoedd llwyddodd yr eglwys hon i fod yn gartref ysbrydol ac hefyd yn ganolfan cymdeithasol i gannoedd lawer o bobl ifanc oddi cartref, ac yr ydym ar ein heithaf yn ceisio parhau'r traddodiad. Yn ychwanegol at raglen gymdeithasol lawn, amrywiol, hynod boblogaidd ac atyniadol, a'r cyfan oll yn nwylo aelodau talentog a ffyddlon yr achos, mae gennym y darpariadau pwysicaf mewn addoliad, Ysgol Sul a WEDI7 - astudiaethau Beiblaidd arbennig i oedolion ifanc unwaith y mis.

Cymwynas o'r mwyaf â ni fyddai cael gwybod ymlaen llaw gan Weinidogion neu Ysgrifenyddion enwau a chyfeiriadau unrhyw rai yn eu heglwysy sydd ar ddod i Gaerdydd yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe wnawn bopeth a allwn i'w gwneuthur yn gartrefol gyda ni.

Yn gywir,

Owain Llyr

18 Southminster Road, Penylan, Caerdydd CF23 5AT

02920193828 owainalona@googlemail.com

www.minnystreet.com @Minnystreet



Barn Annibynnol

Gwneud nid Dweud

O na fyddai pethau'r ffydd yn syml! O na fyddai pawb yn dod i'r un casgliad wrth ystyried un frawddeg. Y gwir yw bod hyd yn oed gair ag oblygiadau gwahanol i wahanol bobl. Er enghraifft, gall cariad olygu punt yn y casgliad i un tra roedd yr un gair yn golygu rhywbeth cwbl wahanol i'r Fam Teresa. Felly mae pobl yn rhwym o dramgwyllo ei gilydd yn aml. Y mae enghraifft dda o hyn yn agoriad R. H. Tawney i'w gyfrol "Religion and the Rise of Capitalism". Gwraig gefnog yn cyrraedd adref o oedfa a hithau mewn hwyliau drwg ar ôl i'r Ficer ei thramgwyllo. Yn chwyrn fe ddywedodd "It has come to a pretty pass now that religion has to interfere with one's private life". Yn wyneb hyn i bregethwr, mae cyffredinol i'n arwynebol gan siarad yn delynegol yn saff. Dwy slogan a stori neis amdani!

Secs yn y Pulpud

Mae gen i gof byw o bregethu mewn capel ac yn cael fy ngwerthuso gyda'r geiriau "Ychafi yn dod a secs i'r pulpud". Welais i ddim o risiau'r pulpud hwnnw am flynyddoedd wedyn. Gymerodd hi newid yn yr Ysgrifennydd ond erbyn hynny roedd y gynulleidfa wedi crebachu 'n ddim! Beth oedd amgylchiadau'r bregeth? Roedd hi yng nghanol 60au'r ganrif ddiwethaf. Enwau oedd yn llanw'r papurau yn ddyddiol oedd John Wolfenden ac Edith Summerskill ac roedd newidiadau radical ar gerdded sydd wedi dod i lawnach dwf yn ein dyddiau ni. Ond i lawer o ffyddloniaid capel roedd y pethau hyn a dim i'w wneud a chapel. Newidiadau sylfaenol yn ffiniau bywyd oeddent a dim i'w wneud a chapel! Erbyn hyn wrth gwrs yr hyn a ddywedir gan yr ifanc am ein Capeli yw eu bod yn "Amherthnasol."

Lles Uniongyrchol

Yn sicr mae ffyddloniaid llawer o gapeli heddiw yn poeni am eu bod yn methu a sicrhau lle canolog ym mywyd eu cymuned. Mae bywyd yn mynd yn ei flaen hebddynt gyda mwy o'n haelodau yn agosach at 90 na 40 oed.

Y cwestiwn ddylen ni ofyn yw beth ddylen ni wneud? Ofer sôn am gymanfa ganu ac mae angen mynd ymhellach na sôn am wair y fynwent. Yr her i gapel yw bwrw ati i wneud lles uniongyrchol o fewn y gymuned. Rydym yn aml yn dda am gefnogi achosion sy'n gweithio bendraw'r

byd. Peth arall rydym yn dda am wneud yw gweld unigolion o'n plith yn cefnogi achosion da. Ond beth mae'n cymuned eglwysig ni'n ei wneud drosti hi ei hunain? Mae'n wych gweld ambell eglwys sy'n cynnal banc bwyd a helpu pobl sydd mewn traferthion gyda dyledion ac ati, ond, lleiafrif bach iawn yw'r rheini. Hyd y gwelaf i yr her inni yw cynnal gwaith ymchwil sylweddol a safonol yn gyson i weld beth sy'n gwasgu o fewn ein cymdogaethau. Wedyn, trefnu strategaeth gan daflu'r peth yn agored i bobl o ewyllys da i ymuno. Nid cyfyngu'r peth i ni ein hunain ond agor popeth i'r gymuned. Mae lle i'n capeli i fod yn ddefnyddiol i fwy na 'Slimming World'.



Eirian Rees

Her

Gwneud gweithredoedd creadigol llesol yw'r ffordd i ni fod yn egnïol gyda balchder. Gwneud yng ngoleuni "y Gair a wnaethpwyd yn gnawd", bydd bob amser yn sicrhau ein bod ni'n berthnasol. P'run yw hi yn ein capeli? Bod yn flinedig am ein bod wedi gorwneud neu yn ddigalon ddiffas am nad ydym yn gwneud dim sy'n heriol?

Eirian Rees

Rhoi arfau yn nwylo plant ysgol – parhad

Ategwyd y neges yn noson 'Heddwch, rhyw ddydd' gan Dafydd Iwan trwy gyfrwng rhai o'i ganeuon a'r Prifardd Aneirin Karadog a fu'n darllen y dilyniant o gerddi a enillodd cadair Prifwyl y Fenni. (Ceir adroddiad pellach maes o law.)

Y CYNNIG yn llawn: Mae Llywodraeth Prydain yn gwario £50 miliwn i helpu sefydlu unedau cadets milwrol mewn ysgolion - sy'n cynnwys hyfforddi plant 13-18 oed i drin arfau rhyfel. Ofnir bod ysgolion mewn cymunedau tlawd yn cael eu targedu am fod y fath gymunedau'n cael eu hystyried yn dir ffrwythlon i recriwtio. Mae'n ymdrech sinigaidd i baratoi pobl ifanc ar gyfer ymuno â'r lluoedd arfog. Ystyriwn hyn yn wastraff peryglus ac anfoesol o arian cyhoeddus. Yn hytrach na'i wario ar hyrwyddo diwylliant milwrol, credwn y dylid ei ddefnyddio yn ein hysgolion i hyrwyddo diwylliant heddwch a chydweithrediad. Awgrymwn sefydlu mudiadau i roi arweiniad i blant ac ieuencid i gynorthwyo'r amgylchedd a helpu'r henoed a'r anabl. Byddai gwario'r arian ar hyrwyddo diwylliant heddwch yn helpu magu dinasyddion creadigol a heddychlon ar gyfer y dyfodol.

Bethania, Tymbl - 26 Medi am 7.00

Mae cynllun newydd Y Ffordd yn adnodd cyffrous,



defnyddiol, ymarferol a hwyliog i helpu eich eglwys chi ar y daith unigryw gyda Duw.

Bydd yn para am bedair blynedd, gyda thema gwahanol bob blwyddyn:

- Ffyrrdd drwy'r Beibl
- Y Ffordd y daethom
- Tystiolaeth Pobl y Ffordd
- Gofal Pobl y Ffordd

Dewch i wrando, holi a dysgu sut mae dilyn Y Ffordd.

CAPEL TOWYN, CEI NEWYDD

Digwyddiad hapus iawn oedd cael cynnal Oedfa Undebol Chwiorydd Gofalaeth Eglwys Annibynnol Cei Newydd yng Nghapel Towyn, Cei Newydd, ar yr 11eg o Fedi 2016. Bu yn Oedfa o lawen chwedl i nifer ohonom, gan y gwahoddwyd Mrs. Eleri Betts, Caerffili i draddodi anerchiad, am ei bod yn wyres i'r diweddar Barchedig T. Orchwy Bowen, cyn weinidog ffyddlon Capel Towyn, Cei Newydd rhwng 1923 a Rhagfyr 1948. 'Rydym yn ddyledus i Mrs. Betts am fod mor barod i siarad am hanes ei thad-cu, a theulu talentog y Boweniaid. Croesawyd Mrs. Betts yn gynnes iawn, a chawsom brofi anerchiad ysbrydoledig am yr atgofion hyfryd, a llu o bethau cofiadwy oedd yn llifo drwy'r cof, gyda'r cyfan yn cael ei draddodi mor grefffus.

Rhaid cyfeirio at y profiadau cenedlaethol a ddaeth i ran dau o feibion disglair Orchwy Bowen, sef y Prifardd Euros, a'r cyn Archdderwydd Geraint. Fel Eglwys, 'rydym yn ymfalchio yn eu llwyddiant, a gwerthfawrogn eu talent. Mae hanes gweddill y teulu yr un mor werthfawr yn eu gwahanol feysydd, ac yr ydym fel aelodau Eglwys y Towyn yn parhau i gofio'r etifeddiaeth. Mae yma yn y Towyn un o'r cadeiriau eisteddfodol a enillodd Orchwy yn harddu'r Côr Mawr er cof amdano.

Cymrwyd at y rhannau arweiniol yn yr oedfa gan chwiorydd gwahanol gapeli'r ofalaeth, sef: Gwendoline Evans (Nantermis), Ithela Evans (Towyn), Enid Bryn Jones (Pencae), Ruth Rees (Brynrihwgaled), Enid Rowlands (Y Wern), Carys Williams (Maenygroes), a Myfanwy Williams (Pencae). Diolch am Oedfa ysbrydoledig, a chofiw'n am y rhai a adawodd enw i bobl draethu ar eu hôl.

Ithela Evans,
Ysgrifennydd Capel Towyn,
Cei Newydd